

## **Cryfhau ein hymagwedd at Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant gyda Chofrestrau Achrededig**

<b>Adran un – Gwybodaeth gefndir .....</b>	<b>2</b>
<b>1. Cyflwyniad.....</b>	<b>2</b>
<b>Adran Dau – Ymgynghori ar newidiadau Arfaethedig i'r Safonau.....</b>	<b>6</b>
<b>2. Newidiadau arfaethedig i'r Safonau.....</b>	<b>6</b>
<b>3. Gweithredu'r Safonau diwygiedig.....</b>	<b>9</b>
<b>4. Asesiad Effaith.....</b>	<b>10</b>
<b>5. Crynodeb o'r cwestiynau a sut i ymateb .....</b>	<b>11</b>
<b>6. Sut i ymateb .....</b>	<b>13</b>
<b>7. Cyfrinachedd.....</b>	<b>13</b>
<b>8. Ein Proses Ymgynghori .....</b>	<b>14</b>

## Adran un – Gwybodaeth gefndir-

### 1. Cyflwyniad

#### Pwrpas yr ymgynghoriad

- 1.1 Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar gynigion yr Awdurdod Safonau Proffesiynol i ychwanegu Safon newydd ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) i'w [Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig](#).
- 1.2 Mae dwy ffordd o ddarparu eich ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Gallwch ymateb drwy lenwi'r [ddogfen Word](#) a'i chyflwyno drwy e-bost i [arconsultation@professionalstandards.org.uk](mailto:arconsultation@professionalstandards.org.uk), neu gallwch ymateb gan ddefnyddio [SurveyMonkey](#).
- 1.3 Bydd yr arolwg yn cau ar **17 Ionawr 2023**.

#### Ein rôl ac am Gofrestrau Achrededig

- 1.4 Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol yn helpu amddiffyn y cyhoedd trwy ein gwaith gyda sefydliadau sy'n cofrestru a rheoleiddio pobl sy'n gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn gorff annibynnol yn y Deyrnas Unedig. Sefydlir ein rôl a dyletswyddau yn y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2002 (fel y'i diwygiwyd).
- 1.5 Mae tri phrif faes i'n gwaith:
  - Rydym yn goruchwyllo gwaith y deg corff statudol sy'n rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig
  - Rydym yn achredu'r cofrestrau a gedwir gan gyrff cofrestru anstatudol gweithwyr iechyd a gofal
  - Ein nod yw gwella rheoleiddio trwy ddarparu cyngor i lywodraeth y Deyrnas Unedig ac eraill, cyflawni/comisiynu ymchwil a hyrwyddo egwyddorion rheoleiddio cyffyrddiad cywir.
- 1.6 Datblygwyd y rhaglen Cofrestrau Achrededig yn dilyn cyhoeddi Papur Gorchymyn y Llywodraeth *Galluogi Rhagoriaeth*<sup>1</sup> yn 2011. Mae'r papur hwn yn nodi'r rhesymeg dros system gymesur o gofrestru gwirfoddol sicr ar gyfer gweithwyr proffesiynol a grwpiau galwedigaethol nad ydynt yn ddarostyngedig i reoleiddio proffesiynol statudol.
- 1.7 Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol<sup>2</sup> 2012 yn nodi ein swyddogaethau a'n dyletswyddau i gofrestrau gwirfoddol achrededig, sef:
  1. i hyrwyddo buddiannau defnyddwyr gofal iechyd, defnyddwyr gofal cymdeithasol yn Lloegr, defnyddwyr gwasanaethau gwaith cymdeithasol yn Lloegr ac aelodau o'r cyhoedd mewn perthynas â pherfformiad swyddogaethau cofrestru gwirfoddol,

<sup>1</sup> <https://www.gov.uk/government/publications/enabling-excellence-autonomy-and-accountability-forhealth-and-social-care-staff> <sup>2</sup> [Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 \(legislation.gov.uk\)](#)

<sup>2</sup> [Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 \(legislation.gov.uk\)](#)

2. i hyrwyddo arfer gorau o ran perfformiad swyddogaethau cofrestru gwirfoddol, ac
  3. i ffurfio egwyddorion llywodraethu da ym mherfformiad swyddogaethau cofrestru gwirfoddol ac i annof personau sy'n cynnal neu weithredu cofrestrau gwirfoddol achrededig i gydymffurfio â'r egwyddorion hynny.
- 1.8 Mae Adran 25G o'r Ddeddf yn nodi, er mwyn achredu cofrestr wirfoddol, y gall yr Awdurdod ei hasesu yn erbyn meini prawf y mae'n eu gosod a'u cyhoeddi (y *Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig*). Mae cofrestr wirfoddol dan y diffiniad hwn yn gofrestr o'r bobl sy'n gweithio mewn rolau gofal iechyd yn y Deyrnas Unedig, a gofal cymdeithasol yn Lloegr, nad oes yn rhaid iddynt gael eu rheoleiddio er mwyn gweithio.

### Newidiadau yn 2021 yn dilyn adolygiad strategol

- 1.9 Ym mis Gorffennaf 2021, fe wnaethom gyflwyno dull asesu newydd, gydag asesiad llawn yn erbyn y Safonau unwaith bob tair blynedd, a gwiriad blynyddol yn y cyfamser. Cyflwynwyd model ffioedd diwygiedig gennym sy'n adlewyrchu'n well y meintiau amrywiol o seiliau cofrestryddion. Cyflwynwyd 'prawf budd y cyhoedd' newydd hefyd (Safon 1b), sy'n ein galluogi i bwysu a mesur a yw risgiau'r prif weithgareddau a gynigir gan gofrestryddion yn drech na'r buddion.
- 1.10 Cyflwynwyd ein Safonau diwygiedig ym mis Gorffennaf 2021<sup>3</sup> gyda fframwaith tystiolaeth yn manylu ar y gofynion sylfaenol ar gyfer pob Safon<sup>4</sup>. Roedd y Safonau diwygiedig yn cynnwys cyfeiriad mwy penodol at Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y gofynion sylfaenol, fodd bynnag, nid yw wedi bod yn ffocws penodol i'r Safonau.

### Ein hymagwedd at EDI hyd yma

- 1.11 Fel corff cyhoeddus mae'n ofynnol i'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ystyried ei Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus (PSED) wrth gyflawni ei swyddogaethau. Dylai cyrff cyhoeddus ystyried yr amcanion canlynol fel y nodir yn a149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010:
- ddidymu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan neu dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;
  - hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol phobl rhai nad ydynt yn ei rhannu;
  - meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu
- 1.12 Enghraifft ddiweddar o sut rydym yn cyflawni ein PSED yn ymarferol ac yn unol â'n hymagwedd sefydliadol gyffredinol at EDI yw'r datganiad cyhoeddus sy'n cefnogi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar therapi trosi.<sup>5</sup> Mae hyn yn cadarnhau na fyddwn yn achredu unrhyw Gofrestr sy'n caniatáu therapi trosi, o gyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth o ran rhywedd. Mae hyn yn cyd-fynd â'n

<sup>3</sup> [Standards for Accredited Registers CY \(professionalstandards.org.uk\)](https://www.professionalstandards.org.uk)

<sup>4</sup> [Accredited Registers Evidence framework \(professionalstandards.org.uk\)](https://www.professionalstandards.org.uk)

<sup>5</sup> <https://www.professionalstandards.org.uk/news-and-blog/latest-news/detail/2022/09/27/psa-supports-mou-on-conversion-therapy-and-welcomes-the-inclusion-of-gender-identity> [Cyrchwyd 3 Hydref 2022]

ymateb sefydliadol ehangach i ymgynghoriad diweddar Swyddfa'r Cabinet ar therapi trosi.<sup>6</sup>

- 1.13 Un o'r ffyrdd rydym yn cyflawni ein PSED o fewn y rhaglen Cofrestrau Achrededig yw drwy'r Asesiad Effaith (AE) a gynhaliwn ar gyfer asesiad unigol penderfyniadau. Gwnaethom ddiweddarau'r broses hon yn dilyn yr adolygiad strategol ym mis Gorffennaf 2021. Arweiniodd hyn at newidiadau i'r dull asesu i roi mwy o ffocws ar EDI ac i sicrhau bod effeithiau'n cael eu hystyried drwy gydol y broses asesu. Fodd bynnag, nid yw'r Asesiad Effaith yn canolbwyntio ar y gwaith y mae'r gofrestr yn ei wneud ar EDI ond ar effeithiau penderfyniad achredu'r Awdurdod, gan gynnwys ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig gwahanol.
- 1.14 Rydym yn ystyried EDI fel rhan o'n 'prawf lles y cyhoedd' newydd (Safon 1b) wrth benderfynu a yw er budd y cyhoedd i achredu cofrestr. Ystyrir EDI hefyd drwy asesu'r Safonau ehangach. Cryfhawyd hyn gennym yn dilyn yr adolygiad strategol drwy gynnwys y gofynion sylfaenol canlynol:
  - 'Sicrhau bod trefniadau llywodraethu ac aelodaeth yn cynnwys ystod amrywiol o safbwyntiau ac arbenigedd nad ydynt yn gyfyngedig i'r rhai sy'n ymarfer yn y rôl (e.e. aelodau lleig) (Safon 6 – Llywodraethu)
  - Datganiad sefydliadol ar EDI yn nodi ymrwymiad a sut y caiff ei hyrwyddo o fewn y Gofrestr (Safon 6 – Llywodraethu)
  - Mae gwefan a deunyddiau eraill y sefydliad yn darparu gwybodaeth glir a hygyrch am gyfyngiadau a manteision triniaethau a gynigir gan rolau cofrestredig (Safon 7 – rheoli risgiau yn deillio o weithgareddau cofrestryddion)
  - Gwefan sefydliadol glir a hygyrch (Safon 8 – Cyfathrebu ac Ymgysylltu).'
- 1.15 Er gwaethaf hyn, credwn y gellid gwneud mwy yn ein hasesiadau i ystyried EDI a chodi safonau ymhlith y Cofrestrau Achrededig. Mae angen i Gofrestrau Achrededig ddeall y materion sy'n effeithio ar y rolau y maent yn eu cofrestru, a'r defnyddwyr gwasanaeth sy'n ceisio gwasanaethau y rhai sydd wedi cofrestru. Bydd cyflwyno safon benodol yn sicrhau bod gennym fecanwaith clir ar gyfer gwirio bod Cofrestrau Achrededig yn canolbwyntio ar wella mynediad a dileu rhwystrau i'w cofrestr ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl. Dylai canolbwyntio ar EDI a gwella amrywiaeth y gweithlu arwain at ganlyniadau gwell i gleifion.<sup>7</sup>
- 1.16 Bydd y dystiolaeth a gyflwynir gan ARs yn erbyn y Safon EDI hefyd yn helpu i lywio'r Asesiadau Effaith a gynhaliwn ar gyfer pob penderfyniad achredu.

---

<sup>6</sup> Awdurdod Safonau Proffesiynol (Rhagfyr 2021) *Ymateb i ymgynghoriad Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth ar wahardd therapi trosi*. Ar gael ar [https://www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/publications/consultation-response/others-consultations/2021/professional-standards-authority-resonse-to-geo-consultation-on-banning-conversion-therapy.pdf?sfvrsn=421d4820\\_2](https://www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/publications/consultation-response/others-consultations/2021/professional-standards-authority-resonse-to-geo-consultation-on-banning-conversion-therapy.pdf?sfvrsn=421d4820_2) [Cyrchwyd 3 Hydref 2022]

<sup>7</sup> Gomez L.E. a Bernet P (2019). *Diversity improves performance and outcomes*. Journal of the National Medical Association Cyf 111 Rhifyn 4 Tud 383-392. Ar gael ar <https://www.sciencedirect.com/science/article/abs/pii/S0027968418303584?via%3Dihub> [Cyrchwyd 9 Awst 2022]

- 
- 1.17 Mae ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd EDI i gleifion a'r cyhoedd, ac i unigolion cofrestredig. Mae gennym gyfle i godi safonau a hyrwyddo arfer gorau a chredwn mai'r ffordd orau o wneud hyn yw trwy Safon ychwanegol sy'n canolbwyntio ar EDI. Bydd gwella ein hymagwedd at EDI yn ein helpu i sicrhau bod y rhaglen yn diogelu poblogaeth amrywiol y DU orau.

## Adran Dau – Ymgynghori ar Newidiadau Arfaethedig i'r Safonau

### 2. Newidiadau arfaethedig i'r Safonau

#### 2.1 Cynigiwn gyflwyno Safon EDI benodol gyda gofynion sylfaenol cysylltiedig:

*Safon Arfaethedig 9: Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant*

*Mae'r sefydliad yn dangos ei ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac yn sicrhau bod ei brosesau'n deg ac yn rhydd rhag gwahaniaethu annheg.*

- a) Ategir swyddogaethau rheoleiddio'r gofrestr gan degwch a chydaddoldeb mynediad i unigolion cofrestredig a defnyddwyr gwasanaeth.*
- b) Mae'r gofrestr yn deall amrywiaeth ei chofrestryddion, defnyddwyr gwasanaeth ac achwynwyr ac mae'n ymwybodol o faterion a allai effeithio ar y rhai â nodweddion gwarchoddedig<sup>8</sup>.*
- c) Mae'r gofrestr yn gweithio i hyrwyddo a gwella EDI trwy geisio deall a gweithredu ar faterion sy'n effeithio ar y rolau cofrestredig a defnyddwyr gwasanaeth.*

**Cwestiwn 1:** Ydych chi'n meddwl y bydd ychwanegu'r Safon uchod yn arwain at fwy o ffocws ar EDI yn y rhaglen? Os na, sut allwn ni wella ein ffocws EDI?

**Cwestiwn 2:** Ydych chi'n meddwl y bydd ychwanegu'r Safon uchod yn arwain at fwy o ffocws ar EDI gan Gofrestrau Achrededig? Os na, eglurwch pam.

#### 2.2 Dyma'r gofynion sylfaenol arfaethedig:

Rhif	Safon	Enghreiffiau o Dystiolaeth a Ystyriwyd	Safon Ofynnol
9a	EDI	<p>Ystyried EDI wrth benodi penderfynwyr ac yng nghyfansoddiad Byrddau, Pwyllgorau a Phaneli.</p> <p>Prosesau perthnasol ar gyfer staff ac eraill sy'n ymwneud â gweithgareddau'r gofrestr e.e. chwythu'r chwiban, gwrth-fwlio, recriwtio, ymdrin â chwynion ac ati.</p> <p>Polisïau a gweithdrefnau perthnasol.</p>	<p>Mae gan y Gofrestr bolisïau mewnol perthnasol megis chwythu'r chwiban, gwrth-fwlio, recriwtio.</p> <p>Mae'r Gofrestr yn ystyried EDI wrth benodi penderfynwyr a chreu paneli i wrando ar gwynion.</p> <p>Dylai'r gofrestr ddarparu gwybodaeth hygyrch wedi'i hanelu at ddefnyddwyr gwasanaeth ar ei gwefan am ei rôl, y galwedigaethau a gwmpesir ar y gofrestr a</p>

<sup>8</sup> Fel y'i diffinnir gan y Ddeddf Cydraddoldeb neu grwpiau a restrir o dan Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon.

		<p>Enghreiffiau o Asesiadau Effaith a gynhaliwyd.</p> <p>Hygyrchedd gwybodaeth ar y wefan sydd wedi'i hanelu at y rhai sy'n cofrestru.</p> <p>Prosesau trin cwynion ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn unigolion cofrestredig.</p> <p>Polisiâu addasiadau rhesymol.</p>	<p>swyddogaethau allweddol megis ymdrin â chwynion.</p> <p>Dylai'r gofrestr ddarparu cymorth i achwynwyr lle bo angen, dylai hyn gynnwys galluogi achwynwyr i wneud cwyn a'u cefnogi drwy'r broses.</p> <p>Dylai'r gofrestr ddileu unrhyw rwystrau diangen i gymryd rhan yn y broses ymdrin â chwynion i bawb dan sylw.</p> <p>Wrth gyflwyno newidiadau i swyddogaethau a pholisiâu allweddol, dylid ystyried a fydd y rhain yn effeithio'n andwyol ar unrhyw grwpiau ac os felly, sut y caiff hyn ei liniaru.</p>
<b>9b</b>	EDI	<p>Polisiâu a gweithdrefnau ar gyfer casglu a dadansoddi data EDI y rhai sy'n cofrestru.</p> <p>Adroddiadau ar ddata cofrestru/cwynion sy'n ystyried gwybodaeth ddemograffig</p>	<p>Dylai'r gofrestr gasglu data demograffig am ei chofrestryddion fel y gall ddeall amrywiaeth sylfaen y rhai sydd wedi cofrestru.</p> <p>Dylai'r gofrestr ddefnyddio'r data demograffig y mae'n ei gasglu i nodi a oes unrhyw feysydd o annhegwch posibl yn ei phrosesau cwyno, ac i weithredu ar y rhain.</p> <p>Prosesau ar waith i nodi effeithiau tebygol ar ddefnyddwyr gwasanaeth â nodweddion gwarchoddedig, ac ar gyfer nodi a monitro mesurau lliniaru.</p> <p>Mae gan y Gofrestr brosesau ar waith ar gyfer nodi a lliniaru rhwystrau posibl i gofrestru.</p>

			Lle bo'n berthnasol, mae gan y gofrestr brosesau ar waith ar gyfer nodi a lliniaru rhwystrau posibl i addysg a hyfforddiant.
<b>9c</b>	EDI	<p>Strategaethau a chynlluniau EDI. Datganiadau Cyhoeddiedig.</p> <p>Trafodaethau Bwrdd ar faterion EDI.</p> <p>Gwybodaeth am waith y mae'n ei wneud gyda sefydliadau eraill i hyrwyddo EDI.</p> <p>Ymchwil i EDI lle bo'n berthnasol i waith a rolau cofrestredig y Gofrestr.</p> <p>Gwybodaeth a ddarperir ar y wefan.</p>	<p>Mae'r gofrestr wedi cyhoeddi polisiau EDI gan gynnwys Datganiad EDI. Mae'r Gofrestr yn adrodd ar gynnydd yn erbyn ei chynlluniau i'w Bwrdd (neu gyfwerth).</p> <p>Dylai'r gofrestr weithio gyda sefydliadau eraill lle bo angen i hyrwyddo EDI a dileu unrhyw rwystrau diangen i'w chofrestryddion a'u defnyddwyr gwasanaeth.</p>

**Cwestiwn 3:** A yw'r gofynion sylfaenol wedi'u gosod ar y lefel gywir? A fydddech chi'n cynnwys unrhyw beth gwahanol?

**Cwestiwn 4:** A yw'r enghreifftiau o dystiolaeth a awgrymwyd yn caniatáu inni asesu'r Safon hon? Os na, beth fydddech chi'n ei gynnwys?

### Newidiadau i Safonau eraill

2.3 Rydym wedi nodi'r gofynion sylfaenol canlynol y byddwn yn eu hychwanegu at y Safonau cyfredol:

- Mae cofrestrau'n sicrhau bod eu hunigolion cofrestredig wedi'u harfogi i ofalu am boblogaeth amrywiol trwy eu haddysg a'u hyfforddiant (Safon 4 – Addysg a Hyfforddiant)
- Dylai cofrestrau sy'n cymeradwyo sefydliadau hyfforddi eraill ystyried EDI wrth asesu addasrwydd cyrsiau ar gyfer eu cofrestr (Safon 4 – Addysg a Hyfforddiant)
- Mae cofrestrau yn sicrhau eu bod wedi ystyried Safon y Gymraeg lle bo'n briodol (Safon 8 – Cyfathrebu)
- Bod gan gofrestrau brosesau teg ar waith ar gyfer recriwtio, hyfforddiant, gan gynnwys hyfforddiant EDI perthnasol, a monitro parhaus o aelodau'r Bwrdd a Phwyllgorau. (Safon 6 – Llywodraethu)



## 2.4 Rydym hefyd wedi nodi'r newidiadau canlynol:

- Safon 5 (ymdrin â chwynion) mae un o'r gofynion sylfaenol yn darllen 'mae gan y gofrestr broses ar gyfer recriwtio, hyfforddi a monitro parhaus y rhai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol mewn prosesau disgyblu.' Rydym yn cynnig newid hyn i 'mae gan y gofrestr broses ar gyfer recriwtio, hyfforddiant, gan gynnwys hyfforddiant EDI perthnasol, a monitro parhaus y rhai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol mewn prosesau disgyblu
- Safon 6 (Llywodraethu) – mae un o'r gofynion sylfaenol yn nodi: 'dylai fod gan y gofrestr brosesau ar waith i sicrhau bod data'n cael ei drin yn briodol.' Rydym yn cynnig newid hyn i 'dylai'r gofrestr fod â pholisïau prosesu data perthnasol yn eu lle, gan gynnwys ar gyfer dal a phrosesu data EDI.'
- Safon 6 (Llywodraethu) – dileu'r gofyniad sylfaenol i gynnal Datganiad EDI, gan y bydd hyn yn cael ei gynnwys yn y Safon ofynnol newydd ar gyfer Safon 9.

**Cwestiwn 5:** Ydych chi'n meddwl bod angen i ni wneud unrhyw newidiadau ychwanegol i'r gofynion sylfaenol presennol?

### Canllawiau atodol a rhannu arfer da

## 2.5 Byddwn yn parhau i amlygu arfer da fel canfyddiadau cadarnhaol mewn adroddiadau asesu cyhoeddedig ac yn yr adran 'arfer da' yng nghylchlythyr y Gofrestr Achrededig er mwyn galluogi cofrestrau i ddysgu oddi wrth ei gilydd.

**Cwestiwn 6:** A fyddai canllawiau ychwanegol ar unrhyw agwedd ar y Safon hon yn ddefnyddiol? Os felly, rhowch fanylion.

**Cwestiwn 7:** A oes unrhyw beth arall y gallem ei wneud i rannu arfer da rhwng y Cofrestrau Achrededig?

## 3. Gweithredu'r Safonau diwygiedig

3.1 Bwriadwn gyflwyno'r Safon newydd ym mis Ebrill 2023. Bydd pob cais newydd a dderbynnir ar ôl y pwynt hwn yn cael ei asesu yn erbyn hyn. Bydd Cofrestrau Achrededig cyfredol yn cael eu hasesu yn ei herbyn fel rhan o'u gwiriadau blynyddol neu asesiadau llawn rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024. Bydd sefydliadau sy'n mynd trwy eu hasesiad cyntaf ar y pwynt hwn yn cael eu hasesu yn erbyn y Safon newydd yn eu hadolygiad cyntaf yn dilyn achreidiad.

3.2 Bydd Cofrestrau Achrededig ar wahanol gamau yn eu hystyriaeth o EDI, felly mae angen i asesiad o'r Safon hon fod yn gymesur i roi amser i Gofrestrau Achrededig presennol roi'r gofynion sylfaenol ar waith. Bydd yr asesiad o Gofrestrau Achrededig cyfredol yn ystyried y gwaith y mae'r gofrestr yn ei wneud i gynnwys EDI yn eu gwaith. Dim ond pan fydd mater diogelu'r cyhoedd yn cael ei amlygu yn ystod y flwyddyn gyflwyno gychwynnol y caiff amodau eu cyhoeddi cyn belled â bod y Cofrestrau Achrededig presennol yn gweithio i fabwysiadu'r gofynion sylfaenol.

**Cwestiwn 8:** A yw ein dull o asesu'r Safon newydd yn ymddangos yn rhesymol a chymesur? Os na, eglurwch pam.

**Cwestiwn 9:** A yw'r amserlenni a awgrymir ar gyfer gweithredu'r Safon hon yn ymddangos yn rhesymol? Os na, eglurwch pam.

#### 4. Asesiad Effaith

- 4.1 Yn gyffredinol, credwn y bydd cyflwyno Safon EDI yn cael effaith gadarnhaol. Mae cael gweithlu mwy amrywiol yn arwain at ganlyniadau gwell i gleifion.<sup>9</sup> Amlygodd adroddiad a gyhoeddwyd gan Ymddiriedolaeth Nuffield yn 2021 rai o'r gwahaniaethau o ran mynediad a photensial gyrfa i seicolegwyr. Nododd yr adroddiad fod pobl o ethnigrwydd Du neu Asiaidd, er yr un mor debygol o ddewis astudio seicoleg yn y brifysgol, yn llai tebygol o fod mewn uwch rolau; roedd dynion yn llai tebygol o ddilyn gyrfa mewn seicoleg ac roedd israddedigion anabl yn fwy tebygol o gymryd rhan yn eu cyrsiau seicoleg.<sup>10</sup> Gwyddom fod yna rwystrau i rai ymuno â'r proffesiwn cwnsela, sy'n aml yn ei gwneud yn ofynnol i bobl gael profiad trwy waith gwirfoddol, sy'n golygu mai dim ond y rhai sy'n gallu ei fforddio all ddod yn gwmselwyr sy'n lleihau amrywiaeth y gweithlu ar unwaith. Bydd ffocws ar EDI a gweithio i ddeall a lleihau rhwystrau i ymuno â phroffesiwn yn creu gweithlu mwy amrywiol. Mae hyn yn golygu y bydd pobl sy'n ceisio therapi yn fwy tebygol o allu cael therapi gan rywun y gallant uniaethu â diwylliant neu dreftadaeth.
- 4.2 Mae'n bosibl y bydd cyflwyno Safon newydd yn golygu y bydd angen i Gofrestrau Achrededig ddiwygio eu prosesau a'u gweithdrefnau a allai arwain at gostau uwch. Gallai hyn gael ei drosglwyddo i'r defnyddiwr gwasanaeth trwy godi ffioedd cofrestryddion. Os bydd y Gofrestr Achrededig yn cynyddu ffioedd gallai hyn olygu bod unigolion cofrestredig yn dewis ymddiswyddo o'u cofrestriad, yn enwedig o ystyried yr argyfwng costau byw cyfredol. Gall Cofrestrau Achrededig hefyd ddewis optio allan o'r rhaglen os ydynt yn gweld y gofynion yn rhy feichus. Dylai mabwysiadu dull cymesur o asesu Cofrestrau Achrededig cyfredol a rhoi amser iddynt roi'r gofynion sylfaenol ar waith liniaru hyn.
- 4.3 Rydym yn awyddus i sicrhau bod y rhaglen yn rhoi sicrwydd i boblogaethau amrywiol y Deyrnas Unedig. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd trwy'r ymgynghoriad hwn i nodi ffyrdd y gallem wneud hyn yn y dyfodol, er enghraifft codi ymwybyddiaeth o fanteision achredu gyda Chofrestrau sy'n berthnasol i gymunedau ag anghenion penodol neu berthnasedd i grwpiau sydd mewn perygl o ganlyniadau iechyd gwaeth.
- 4.4 Credwn y gellir cyflawni asesiad mwy cywir o effaith unrhyw newid unwaith y bydd prosesau gweithredol diwygiedig wedi eu datblygu, ond yn dal yn ystyrlon o effaith bosibl unrhyw newidiadau y byddwn yn eu harchwilio. Rydym yn gofyn am farnau'r rhai a effeithir, ac yn benodol y Cofrestrau Achrededig, unigolion

<sup>9</sup> Gomez L.E. a Bernet P (2019). Diversity improves performance and outcomes. Journal of the national Medical Association Cyf 111 Rhifyn 4 Tud 383-392. Ar gael ar <https://www.sciencedirect.com/science/article/abs/pii/S0027968418303584?via%3Dihub> [Cyrchwyd 9 Awst 2022]

<sup>10</sup> Nuffield Trust (2021) The right track: Participation and progression in psychology career paths. Ar gael ar: <https://www.nuffieldtrust.org.uk/research/the-right-track-participation-and-progression-in-psychology-career-paths> [Cyrchwyd 9 Awst 2022]

cofrestredig a chleifion a defnyddwyr gwasanaeth, o effaith debygol y newidiadau a amlinellwyd yma. Byddem yn croesawu unrhyw adborth i sicrhau'n bod yn ystyried yr holl faterion perthnasol. Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau ynghylch effaith y cynigion hyn.

**Cwestiwn 10:** A oes unrhyw agweddau o'r cynigion hyn y teimlwch allai arwain at driniaeth wahaniaethol, neu effaith ar, grwpiau neu unigolion yn seiliedig ar y nodweddion canlynol a ddiffiniwyd dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010:

- • Oedran
- • Anabledd
- • Ailbennu rhywedd
- • Priodas a phartneriaeth sifil
- • Beichiogrwydd a mamolaeth
- • Hil
- • Crefydd neu gred
- • Rhyw
- • Cyfeiriadedd rhywiol
- • Arall (nodwch)

Os rhoesoch ateb cadarnhaol i unrhyw un o'r uchod, esboniwch pam a beth ellid gwneud i newid hyn.

**Cwestiwn 11:** A oes unrhyw effeithiau ychwanegol y credwch y dylem eu hystyried cyn gwneud unrhyw newidiadau? (gallai'r rhain fod er enghraifft, cymdeithasol, ariannol, amgylcheddol ac ati)

**Cwestiwn 12:** I'n helpu i ddeall pwy sydd â diddordeb yn y rhaglen ac sy'n ymateb i'n hymgyngoriad, byddai'n ddefnyddiol i wybod mwy amdanoch chi. Pe byddai'n well gennych chi beidio ychwanegu eich enw, gallech roi gwybod i ni, er enghraifft, eich maes gwaith neu ddiddordeb neu'r math o sefydliad rydych chi'n gweithio iddo (er enghraifft, 'Dwi'n gweithio i gofrestr achrededig' neu 'Dwi'n gweithio gyda chofrestr achrededig'):

Cwestiwn: Eich enw ac/neu enw eich sefydliad.

Cwestiwn: Sut fyddech chi'n disgrifio'ch sefydliad (neu'ch rôl eich hun os yn fwy perthnasol)

Cwestiwn: A fyddech chi'n hapus i ni i ddefnyddio eich ymateb yn ein hadroddiad ymgynghori cyhoeddedig?

## 5. Crynodeb o gwestiynau a sut i ymateb

### 5.1 Crynodeb o gwestiynau

1. Ydych chi'n meddwl y bydd ychwanegu'r Safon uchod yn arwain at fwy o ffocws ar EDI yn y rhaglen? Os na, sut allwn ni wella ein ffocws EDI?

2. Ydych chi'n meddwl y bydd ychwanegu'r Safon uchod yn arwain at fwy o ffocws ar EDI gan Gofrestrau Achrededig? Os na, eglurwch pam.
3. A yw'r gofynion sylfaenol wedi'u gosod ar y lefel gywir? A fydddech chi'n cynnwys unrhyw beth gwahanol?
4. A yw'r enghreifftiau o dystiolaeth a awgrymwyd yn caniatáu inni asesu'r Safon hon? Os na, beth fydddech chi'n ei gynnwys?
5. A yw ein dull o asesu'r Safon newydd yn ymddangos yn rhesymol a chymesur? Os na, eglurwch pam.
6. A fyddai canllawiau ychwanegol ar unrhyw agwedd ar y Safon hon yn ddefnyddiol? Os felly, rhowch fanylion.
7. A oes unrhyw beth arall y gallem ei wneud i rannu arfer da rhwng y Cofrestrau Achrededig?
8. A yw'r amserlenni a awgrymir ar gyfer gweithredu'r Safon hon yn ymddangos yn rhesymol? Os na, eglurwch pam.
9. A oes unrhyw agweddau o'r cynigion hyn y teimlwch allai arwain at driniaeth wahaniaethol, neu effaith ar, grwpiau neu unigolion yn seiliedig ar y nodweddion canlynol a ddiffiniwyd dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010:
  - Oedran
  - Anabledd
  - Ailbennu rhywedd
  - Priodas a phartneriaeth sifil
  - Beichiogrwydd a mamolaeth
  - Hil
  - Crefydd neu gred
  - Rhyw
  - Cyfeiriadedd rhywiol
  - Arall (nodwch)

Os rhoesoch ateb cadarnhaol i unrhyw un o'r uchod, esboniwch pam a beth ellid gwneud i newid hyn.

10. A oes unrhyw effeithiau ychwanegol y credwch y dylem eu hystyried cyn gwneud unrhyw newidiadau? (gallai'r rhain fod er enghraifft, cymdeithasol, ariannol, amgylcheddol ac ati)
11. Sefydlwyd y rhaglen Cofrestrau Achrededig i ddiogelu'r cyhoedd yn y Deyrnas Unedig. Beth yw'r ffordd orau i ni sicrhau bod y rhaglen yn cwmpasu meysydd ymarfer sy'n berthnasol i boblogaeth amrywiol y Deyrnas Unedig?
12. I'n helpu i ddeall pwy sydd â diddordeb yn y rhaglen ac sy'n ymateb i'n hymgyngoriad, byddai'n ddefnyddiol i wybod mwy amdanoch chi. Pe byddai'n well gennyh chi beidio ychwanegu eich enw, gallech roi

gwybod i ni, er enghraifft, eich maes gwaith neu ddiddordeb neu'r math o sefydliad rydych chi'n gweithio iddo (er enghraifft, 'Dwi'n gweithio i gofrestr achrededig' neu 'Dwi'n gweithio gyda chofrestr achrededig'):

Cwestiwn: Eich enw ac/neu enw eich sefydliad.

Cwestiwn: Sut fydddech chi'n disgrifio'ch sefydliad (neu'ch rôl eich hun os yn fwy perthnasol)

Cwestiwn: A fydddech chi'n hapus i ni gyhoeddi eich ymateb yn ein hadroddiad terfynol?

## 6. Sut i ymateb

6.1 Mae dwy ffordd o ddarparu eich ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Gallwch ymateb drwy lenwi'r ddogfen Word a'i chyflwyno drwy e-bost i [arconsultation@professionalstandards.org.uk](mailto:arconsultation@professionalstandards.org.uk), neu gallwch ymateb gan ddefnyddio [SurveyMonkey](#).

6.2 Bydd yr arolwg yn cau ar **17 Ionawr 2023**.

6.3 Rydym yn annog anfon ymatebion trwy e-bost. Os nad yw hyn yn bosibl, ein cyfeiriad post yw:

Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol

157-197 Buckingham Palace Road

Llundain

SW1W 9SP

6.4 Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu os ydych chi angen fersiwn hygyrch o'r ddogfen hon, cysylltwch â ni ar 020 7389 8030 neu trwy e-bost at [accreditationteam@professionalstandards.org.uk](mailto:accreditationteam@professionalstandards.org.uk).

## 7. Cyfrinachedd

7.1 Byddwn yn rheoli'r wybodaeth a ddarparwch mewn ymateb i'r papur trafod hwn yn unol â'n polisiau diogelwch gwybodaeth sydd ar gael ar ein gwefan ([www.professionalstandards.org.uk](http://www.professionalstandards.org.uk)).

7.2 Gellir cyhoeddi neu ddatgelu unrhyw wybodaeth a dderbyniwn, yn cynnwys gwybodaeth bersonol yn unol â chyfundrefnau mynediad i wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA) a'r Ddeddf Diogelu Data 1998 (DPA) a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

7.3 Os ydych am i'r wybodaeth a roddwch gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol, dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, bod Cod Ymarfer statudol yn bodoli y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag o ac sy'n delio â rhwymedigaethau cyfrinachedd, ymysg pethau eraill. O ganlyniad, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam yr ydych yn ystyried fod yr wybodaeth yr ydych wedi darparu i ni yn gyfrinachol.

- 7.4 Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Ni ystyrir ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, i fod yn rhwymol i'r Awdurdod.
- 7.5 Byddwn yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a gan amlaf bydd hyn yn golygu na ddatgelir eich data personol i drydydd partion.

## 8. Ein Proses Ymgynghori

8.1 Mae ein proses ymgynghori yn seiliedig ar egwyddorion presennol Swyddfa'r Cabinet ar ymgynghori cyhoeddus, 'Consultation principles: guidance'.<sup>11</sup> Wrth gyflawni ymgynghoriadau cyhoeddus ar agweddau o waith yr Awdurdod, rydym yn ceisio:

- Bod yn glir o ran y broses ymgynghori a'r hyn sy'n cael ei gynnig. Mae hyn yn rhoi cyfle i ymatebwyr ddylanwadu ar ein syniadaeth ac ystyried manteision ac anfanteision ein cynigion.
- Ymgynghori'n ffurfiol pan fydd cwmpas i ddylanwadu ar y polisi fel bod diben i'r ymgynghoriadau.
- Roi digon o wybodaeth i sicrhau bod y rhai yr ymgynghorir â nhw yn deall y materion ac yn gallu darparu ymatebion gwybodus. Rydym yn cynnwys asesiadau o gostau a buddion a'r opsiynau a ystyriwyd.
- Ceisio barn gyfunol cyn cyhoeddi ymgynghoriad ysgrifenedig, yn arbennig wrth ymgynghori ar gynigion newydd.
- Ymgynghori am gyfnod cymesur o amser, gan gasglu barnau ar natur ac effeithiau'r cynigion. Byddai ymgynghori am gyfnod rhy hir yn oedi datblygiad polisi ac nid yw ymgynghori'n rhy gyflym yn rhoi digon o amser ar gyfer ystyriaeth a bydd yn lleihau safon yr ymatebion.
- Sicrhau bod ein hymgyngoriad yn dargedig i ystyried yr ystod llawn o randdeiliad, cyrff ac unigolion a effeithir gan y polisi a chynnwys grwpiau cynrychiadol perthnasol. Ystyried targedu grwpiau penodol os oes angen.
- Ystyried ymgynghori i fod yn broses barhaus, nid dogfennau ac ymatebion ffurfiol yn unig.
- Dadansoddi ymatebion yn ofalus ac esbonio'r ymatebion a dderbyniwyd a sut maent wedi hysbysu'r polisi. Rhoi adborth clir i'r rhai sy'n cymryd rhan yn dilyn yr ymgynghoriad. Cyhoeddi ymatebion i'r ymgynghoriad o fewn 12 wythnos neu esbonio pam nad yw hynny'n bosibl.
- Caniatáu amser priodol rhwng cau'r ymgynghoriad a gweithredu'r polisi.

8.2 Os oes gennych bryderon neu sylwadau yn ymwneud yn benodol â'r broses ymgynghori ei hun, cysylltwch â ni:

---

<sup>11</sup> Swyddfa'r Cabinet. (2016) *Consultation principles: guidance*. Ar gael ar: [Consultation principles 2016 \(publishing.service.gov.uk\)](https://publishing.service.gov.uk) [Cyrchwyd 20 Gorffennaf 2022].

---

Christine Braithwaite  
Cyfarwyddwr Safonau a Pholisi  
Awdurdod Safonau Proffesiynol 157-197  
Buckingham Palace Road  
Llundain  
SW1W 9SP  
Ffôn: 020 7389 8030  
E-bost: [christine.braithwaite@professionalstandards.org.uk](mailto:christine.braithwaite@professionalstandards.org.uk)